*Yn amodolar gontract*

# Ar Osod

## Consesiwn arlwyo ar gyfer y ciosg a rheoli'r toiledau cyhoeddus ym Mharc Waunfawr, Crosskeys

## Gwahodd tendrau ar gyfer prydlesu'r ciosg



Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn falch o gynnig yr eiddo uchod i'w osod ar gyfer defnydd masnachol. Bydd y brydles yn weithredol am gyfnod o 3 blynedd.

Mae'r ciosg wedi'i leoli ym Mharc Waunfawr, Waunfawr Park Road, Crosskeys, sy'n barc baner werdd o'r radd flaenaf. Mae'r parc wedi'i leoli wrth droed mynyddoedd trawiadol Cwm Ebwy Isaf y tu ôl i gampws Coleg Crosskeys.

Mae'r eiddo'n cynnwys cegin, toiled staff/storfa lanhau, toiled neillryw a

## Rhaid trefnu apwyntiad I ymweld â'r eiddo

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad

Lisa Jennings 01443 864102 Jennil2@caerffili.gov.uk
Mike Williams 01443 864142 Willim21@caerffili.gov.uk

*Yn ammodol ar gontract*

## LLEOLIAD

Mae'r eiddo wedi'i leoli yn Waunfawr Park, Waunfawr Park Road, Crosskeys.

## DISGRIFIAD

Mae'r eiddo'n cynnwys cegin, toiled staff/storfa lanhau, toiled neillryw a thoiled anabl neillryw. Mae'r ciosg wedi'i leoli ym mharc baner werdd o'r radd flaenaf Waunfawr ac mae'n addas ar gyfer gweini diodydd poeth ac oer a byrbrydau heb eu ffrio i'r gymuned.

## ARDRETHI A CHOSTAU

Cyfrifoldeb y tenant yw'r holl ardrethi (os oes angen) a chostau, gan gynnwys yr holl gostau cyfleustodau, sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ciosg.

## FFIOEDD

Bydd y darpar denant yn gyfrifol am ffioedd cyfreithiol a syrfewyr y Cyngor ynghyd â'u costau cyfreithiol eu hunain.




## DEILIADAETH A THELERAU

Rydyn ni'n gwahodd cynigion am brydles 3 blynedd ar gyfer consesiwn arlwyo sy'n cynnwys rheoli'r toiledau cyhoeddus. Mae penawdau telerau llawn ar gael ar gais.

## CYNLLUNIO


Mae pob caniatâd cynllunio gofynnol yn ei le.

## CYNLLUNIAU

Mae'r cynlluniau a'r ffotograffau, sydd ynghlwm wrth y manylion hyn, at ddiben adnabod yn unig

## YMWELD Â'R EIDDO

Mae pob ymweliad â'r eiddo drwy apwyntiad yn unig. Cysylltwch â Lisa Jennings 01443 864102 neu Mike Williams 01443 864142.




## GWASANAETHAU

Mae'r eiddo wedi'i gysylltu â gwasanaethau'r prif gyflenwad, ond dylai darpar denant wneud eu hymholiadau eu hunain ynghylch argaeledd a chapasiti gwasanaethau o'r fath.

## TELERAU LES

Bydd ar gael ar gais cyn ymweld â'r eiddo.

## Tystysgrif Perfformiad Ynni

Y sgôr effeithlonrwydd ynni ar gyfer yr eiddo hwn yw TBC.

## MANYLION CYSWLLT

**Gwasanaethau Tir ac Eiddo**
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
Property@caerffili.gov.uk

**Cynllunio**
Ty Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG
Planning@caerffili.gov.uk




*Yn amodol ar gontract*

# Cynllun at ddibenion adnabod yn unig

Caerphilly County Borough Council

1:3,000




© Crown copyright and database rights 2024, OS 100025372.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024, AO 100025372

I. Mae'r manylion wedi'u nodi fel amlinelliad cyffredinol yn unig ar gyfer cyfarwyddyd i'r prynwyr arfaethedig, ac nid ydyn nhw'n gyfystyr nac yn rhan o gynnig neu gontract;

II. Mae'r holl ddisgrifiadau, dimensiynau, cyfeiriadau at gyflwr a chaniatâd angenrheidiol ar gyfer defnyddio a meddiannu, a manylion eraill yn cael eu rhoi heb gyfrifoldeb ac ni ddylai unrhyw brynwyr posibl ddibynnu arnyn nhw fel datganiadau neu gynrychioliadau o ffaith ond rhaid iddyn nhw fodloni eu hunain drwy arolygiad neu fel arall o ran cywirdeb pob un ohonyn nhw;

III. Nid oes gan unrhyw un sydd wedi'i gyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili unrhyw awdurdod i wneud neu roi unrhyw sylwadau i warantu unrhyw beth mewn perthynas â'r eiddo hwn; nid yw'r awdurdod hwn yn rhwym i dderbyn y cynnig uchaf nac unrhyw gynnig.